Ministry of Justice

Papur Gwyn y Strategaeth Carchardai – Ymateb i Gwestiynau’r Ymgynghoriad

Mehefin 2022

CP 686

Ministry
of Justice

Papur Gwyn y Strategaeth Carchardai – Ymateb i Gwestiynau'r Ymgynghoriad

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder
drwy Orchymyn Ei Mawrhydi

Mehefin 2022

CP 686

© Hawlfraint y Goron 2022

Trwyddedwyd y cyhoeddiad hwn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle'r ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth sydd o dan hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint cysylltiedig.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau mewn perthynas â'r cyhoeddiad hwn atom ni yn prisonswhitepaper@justice.gov.uk

ISBN 978-1-5286-3371-0

E02752093 06/22

Argraffwyd ar bapur y mae o leiaf 40% o'i gynnwys yn ffeibrau a ailgylchwyd

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Cyf. ar ran
Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

Cynnwys

Rhagair **3**

Papur Gwyn y Strategaeth Carchardai: Ymateb i Gwestiynau'r Ymgynghoriad **5**

Ein Hystad Carchardai 7

Diogelwch, Sicrwydd a Chyfundrefn 8

Lleihau Aildroseddu 10

Carchardai Menywod 13

Gweithlu 15

Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd 16

Rhagair

Mae carchardai'n hanfodol er mwyn amddiffyn y cyhoedd.

O ganlyniad i newidiadau dedfrydu'r Llywodraeth hon, rydym yn cadw'r troseddwyr mwyaf difrifol a pheryglus yn y ddalfa am fwy o amser, gan gadw ein strydoedd a'r cyhoedd yn ddiogel a helpu dioddefwyr i deimlo bod cyfiawnder wedi'i wneud.

Cyhoeddwyd Papur Gwyn y Strategaeth Carchardai ym mis Rhagfyr 2021. Mae'n amlinellu'n cynlluniau ar gyfer carchardai modern, diogel a saff sy'n diwygio carcharorion, yn lleihau troseddu ac yn gwneud ein strydoedd yn fwy diogel.

Rydym wedi hybu diogelwch dros y tair blynedd diwethaf â'n rhaglen ddiogelwch gwerth £100 miliwn, ac ers cyhoeddi'r Papur Gwyn ymrwymwyd £25 miliwn arall i ddiogelwch carchardai. Rydym yn adeiladu ac yn cynllunio'r genhedlaeth nesaf o garchardai, sy'n sicrhau mwy o gyfleoedd i droseddwyr drawsnewid eu bywydau – eu cael oddi ar gyffuriau, ailadeiladu cysylltiadau teuluol a defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf i roi lle creiddiol i addysg, hyfforddiant a swyddi. Profwyd bod y ffactorau hyn yn lleihau troseddu, yn cwtogi aildroseddu, ac yn amddiffyn y cyhoedd.

Rydym wedi dangos ein bod o ddifri ynglŷn â pharatoi troseddwyr ar gyfer gwaith – sydd mor bwysig er mwyn adsefydlu ac ailintegreiddio troseddwyr yn ôl i'r gymdeithas – drwy gyflwyno Hybiau Cyflogaeth a phenodi 48 o Gadeiryddion Byrddau Cyflogaeth.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i ragor o ddiwygio, gan gynnwys deddfu er mwyn cyflwyno prentisiaethau carcharorion am y tro cyntaf, ehangu digidol, data a thechnoleg ymhellach yn y Gwasanaeth Carchardai, mynd i'r afael â phroblem rhyddhau ar ddydd Gwener ac agor Canolfan Breswyl i Fenywod yng Nghymru.

Ac nid ydym wedi ceisio osgoi heriau cymhleth megis rheoli troseddwyr terfysgaeth, mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau, trais a hunan-niweidio.

Fel y mae'r ymateb i'r ymgynghoriad yn nodi'n glir, dyma ddechrau cynllun cyflawni uchelgeisiol ar gyfer y dyfodol ac mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i ymgysylltu'n barhaus â'n staff, Llywodraethwyr, elusennau a'r cyhoedd i sicrhau ein bod yn ei gyflawni.

Victoria Atkins AS

Gweinidog Gwladol dros Garchardai a Chyfiawnder Ieuenctid

Papur Gwyn y Strategaeth Carchardai: Ymateb i Gwestiynau'r Ymgynghoriad

1. Cyhoeddwyd Papur Gwyn y Strategaeth Carchardai ym mis Rhagfyr 2021, gan amlinellu ein gweledigaeth ar gyfer carchardai. Bydd yr ymrwymiadau sydd yn y papur yn mynd i'r afael â blaenoriaethau'r llywodraeth hon ar gyfer carchardai: adeiladu'r genhedlaeth nesaf o garchardai; ystad carchardai sy'n ddiogel a saff i staff a charcharorion; a gwasanaethau carchardai a phrawf sy'n lleihau troseddu ac yn amddiffyn y cyhoedd.

2. Rydym yn symud yn gyflym yn awr i weithredu'r rhaglen ddiwygio hon, ac rydym eisoes wedi gwneud cynnydd sylweddol ers cyhoeddi'r Papur Gwyn, gan gynnwys:
   - Agor HMP Five Wells ym mis Mawrth 2022. Dyma'r cyntaf o'n carchardai newydd, sy'n darparu 1,700 yn rhagor o leoedd, sy'n allweddol er mwyn amddiffyn y cyhoedd a moderneiddio'r ystad.
   - Cwblhau gwaith uwchraddio digidol mewn saith carchar arall, a disgwylir y bydd gwaith mewn pedwar safle arall wedi'i gwblhau erbyn mis Hydref 2022.
   - Cwblhau ein Rhaglen Buddsoddi mewn Diogelwch ym mis Mawrth 2022, gan gynnwys defnyddio system Diogelwch Giatiau Uwch, sy'n debyg i system sgrinio mewn meysydd awyr, mewn 42 safle risg uchel.
   - Cyflwyno Hybiau Cyflogaeth yn gyflymach, â 29 wedi'u sefydlu erbyn hyn, a 48 o Gadeiryddion Byrddau Cyflogaeth wedi'u penodi.
   - Cyhoeddi y byddwn yn newid y gyfraith er mwyn cyflwyno prentisiaethau carcharorion.

3. Gan ein bod yn cydnabod cymhlethdod yr heriau, a bod arnom eisiau casglu barnau amrywiol gan y rhai sydd â gwybodaeth a phrofiad o garchardai, fe wnaethom gynnwys cwestiynau allweddol yn y papur a gofyn am ymatebion.

4. Hoffem ddiolch i'r holl unigolion a sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad. Derbyniasom 155 o ymatebion i 19 o gwestiynau ymgynghori, gan ddarparu casgliad eang ac amrywiol o farnau: gan garcharorion a staff, sefydliadau sy'n gweithio mewn carchardai, neu'n ymwneud â charchardai, ac aelodau o'r cyhoedd sydd â diddordeb – gan roi dealltwriaeth ddefnyddiol i ni o'r materion amrywiol sydd yn y papur. Yn ogystal â'r ymgynghoriad ysgrifenedig, rydym wedi cyfarfod rhanddeiliaid arbenigol yn y sector, staff sy'n gweithio ar y rheng flaen a'r rhai sydd â phrofiad o'r system carchardai.

5. Daeth negeseuon cryf a chyson i'r amlwg o'r ymgynghoriad, ac maent yn cael eu harchwilio'n fanylach isod. Roedd y negeseuon hyn yn cynnwys cefnogaeth i ehangu digidol, data a thechnoleg yn ein system carchardai er mwyn cyflawni eu potensial ar

gyfer adsefydlu. Neges arall oedd yr angen i gydnabod, deall a rhoi sylw i holl anghenion amrywiaeth poblogaeth y carchardai. Roedd yr ymatebwyr hefyd yn glir ynglŷn â chael y pethau sylfaenol yn iawn er mwyn paratoi pobl i fyw eu bywydau heb droseddu yn y gymuned: paratoi'r rhai sy'n gadael y carchar ar gyfer cael eu rhyddhau drwy addysg a hyfforddiant o safon; sicrhau bod trefniadau wedi'u gwneud er mwyn cael gwaith a lle i fyw; a dull gweithredu wedi'i gydlynu er mwyn pontio i fywyd y tu allan i'r carchar, y bydd ein Pasbortau Ailsefydlu yn cael eu cynllunio i'w sicrhau.

6. Yn gwbl briodol, cododd rhanddeiliaid faterion cymhleth ac anodd. Mynegwyd barn gref ynglŷn ag ehangu'r ystad carchardai. Rhaid i ni wneud hyn er mwyn amddiffyn y cyhoedd a gwneud y strydoedd yn fwy diogel, cwrdd â'r galw disgwyliedig gan y llysoedd a chyflawni ymrwymiadau maniffesto. Bydd y cyfleusterau modern rydym yn eu darparu hefyd yn ein galluogi i ddarparu amgylchedd carchar mwy diogel a saff ac i ddarparu mwy o gyfleoedd i ymyrryd a helpu carcharorion i beidio â throseddu.

7. Roedd nifer anghymesur y bobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig mewn carchardai yn thema amlwg yng nghwestiynau'r ymgynghoriad. Rydym wedi ymrwymo i wella canlyniadau i bobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, ac mae hyn yn cynnwys defnyddio dulliau gweithredu cynhwysol dan Raglen Gweithredu ar Hiliaeth yr Adran wrth i ni roi'n cynlluniau ar waith. Ym mis Mawrth 2022, cyhoeddodd y Llywodraeth hefyd ei hymateb i adroddiad y Comisiwn ar Wahaniaethau Hil ac Ethnig. Ymrwymasom i 74 o gamau gweithredu ar draws y Llywodraeth ar gyfer cymdeithas fwy cynhwysol ac integredig, gan gynnwys mewn cysylltiad â chyfiawnder troseddol.

8. Mae'r ymgynghoriad wedi darparu adborth defnyddiol ac amrywiol, a byddwn yn parhau i ymgysylltu ynglŷn â nifer o wahanol faterion fel y nodir isod wrth i ni roi uchelgeisiau Papur Gwyn y Strategaeth Carchardai ar waith. Rydym hefyd yn datblygu cynlluniau i olrhain, monitro a chyflawni ymrwymiadau'r Papur Gwyn.

Ein Hystad Carchardai

Ers cyhoeddi'r Papur Gwyn, rydym wedi:

- Agor HMP Five Wells â chyfleusterau modern a dyluniad newydd i helpu i leihau aildroseddu
- Cwblhau gwaith uwchraddio digidol mewn saith carchar, gan ddisgwyl y bydd gwaith uwchraddio wedi'i gwblhau mewn pedwar arall erbyn mis Hydref eleni

Yn y dyfodol, byddwn yn:

- Agor HMP Fosse Way yng ngwanwyn 2023 ac yn parhau â'n rhaglen adeiladu carchardai
- Cynyddu mynediad digidol ar draws yr ystad gan gynnwys darparu rhagor o gyllid i gefnogi galwadau fideo

9. Roedd y Papur Gwyn yn cynnwys cynlluniau ar gyfer y rhaglen adeiladu carchardai fwyaf ers dros ganrif. Yn ogystal â hyn, rydym yn amlinellu cynigion i wella'r ystad bresennol, gan gynnwys cwblhau gwaith uwchraddio digidol mewn 11 carchar arall.

10. Un o'r prif themâu yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad oedd y gefnogaeth frwd i'n cynigion i wella seilwaith digidol yn yr ystad carchardai. Mae'r pandemig wedi dangos manteision gwasanaethau digidol er mwyn cefnogi cysylltiadau teuluol a chaniatáu i staff carchar reoli eu hamser yn fwy effeithiol. Er hyn teimlai rhai ymatebwyr y dylem fynd ymhellach ac yn gyflymach wrth wella mynediad at wasanaethau digidol.

11. Fel y nodwyd uchod, rydym yn symud yn gyflym er mwyn gwella mynediad at wasanaethau digidol, ac yn unol â'r adborth, byddwn wrth gwrs yn chwilio am gyfleoedd i uwchraddio rhannau eraill o'r ystad. Erbyn hyn rydym wedi cwblhau'r gwaith uwchraddio mewn saith safle ers cyhoeddi'r Papur Gwyn a bydd y gwaith yn cael ei gwblhau ar bedwar safle arall erbyn mis Hydref 2022. Yn ogystal â'r safleoedd newydd hyn, rydym yn diweddaru'r dyfeisiau a'r gwasanaethau yn y ddau Garchar Digidol gwreiddiol, Wayland a Berwyn, er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n ddiogel a bod modd eu cefnogi. Rydym hefyd wedi ymrwymo i barhau i gynnig gwasanaeth galwadau fideo diogel, tra'n cydnabod adborth o'r ymgynghoriad na ddylai'r cynnydd yn y defnydd o alwadau fideo fod ar draul ymweliadau cymdeithasol. Rydym yn gweld technoleg fel un elfen o'r ffordd rydym yn cynnal cysylltiadau teuluol, ac yn y dyfodol, byddwn yn chwilio am wersi i'w dysgu o'r pandemig ac yn gweithredu rhai o nodau tymor hwy adolygiad yr Arglwydd Farmer ar gysylltiadau teuluol.

12. Rydym yn cytuno bod angen cael y pethau sylfaenol yn iawn. Yn unol â hyn, fe wnaethom fuddsoddi mwy nag erioed yn yr ystad bresennol y llynedd, ac rydym wedi dilyn hynny â buddsoddiad arall dros nifer o flynyddoedd er mwyn gwella amgylchiadau'r rhai sy'n byw ac yn gweithio yn ein carchardai.

13. Mynegodd rhai o'r ymatebwyr bryder ynglŷn ag ehangu carchardai gan ddweud y dylai unrhyw gynlluniau fod yn gynlluniau 'newydd yn lle hen'. Mae ein rhaglen adeiladu carchardai yn gyfle i ailddiffinio'r ffordd rydym yn darparu gwasanaethau mewn carchardai, gan ddarparu llety modern sy'n cefnogi adsefydlu a chaniatáu i ni adnewyddu safleoedd eraill. Mae gennym hefyd ddyletswydd i wasanaethu'r llysoedd, a thrwy Fil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydau a'r Llysoedd, rydym yn cyflwyno newidiadau pwysig i ddedfrydau ar gyfer rhai o'r troseddau mwyaf difrifol. Mae gwir angen y lleoedd hyn er mwyn cwrdd â'r galw a sicrhau ein bod yn cadw ein strydoedd yn ddiogel, gan gyflawni ymrwymiad ein Maniffesto, a darparu ar gyfer y gwaith tymor hwy o adnewyddu a moderneiddio'r ystad carchardai.

14. Roeddem yn falch o weld cefnogaeth i'r cyfleusterau modern sy'n cael eu hymgorffori yn nyluniad ein carchardai newydd. Agorwyd HMP Five Wells yn swyddogol ar 3 Mawrth 2022. Mae'r dechnoleg ddiweddaraf yn y carchar newydd hwn er mwyn i garcharorion allu manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a ddarperir ar gyfer addysg a chyflogaeth; mae ganddo hefyd fesurau diogelwch sy'n cyfrannu tuag at ein polisi o beidio â goddef cyffuriau a nwyddau gwaharddedig eraill. Cyhoeddasom hefyd yn ddiweddar y bydd y carchar newydd yn Glen Parva yn cael ei alw yn HMP Fosse Way ac y bydd yn agor yn y gwanwyn y flwyddyn nesaf. Mae'r rhain yn gamau sylweddol tuag at ein rhaglen uchelgeisiol o ddarparu ystad garchardai addas i'r diben yn y dyfodol, â'r capasiti sydd ei angen i gwrdd â'r galw, cadw carcharorion yn ddiogel ac yn saff – a lleihau aildroseddu.

Diogelwch, Sicrwydd a Chyfundrefn

Ers cyhoeddi'r Papur Gwyn, rydym wedi:

- Cwblhau ein Rhaglen Fuddsoddi mewn Diogelwch gwerth £100 miliwn gan osod 75 o sganwyr cyrff pelydr-X a system Diogelwch Giatiau Uwch mewn 42 o safleoedd risg uwch
- Sicrhau £34 miliwm o gyllid i symud tuag at ddull gweithredu ataliol yng nghyswllt diogelwch

Yn y dyfodol, byddwn yn:

- Buddsoddi £25 miliwn arall er mwyn tarfu ar gyflenwi cyffuriau ac eitemau anghyfreithlon eraill i'r carchar
- Buddsoddi £120 miliwn i gefnogi troseddwyr i gael triniaeth cyffuriau er mwyn cyflawni'r ymrwymiadau yn Strategaeth Gyffuriau'r Llywodraeth
- Cynllunio a gweithredu ein Model Cyfundrefn Genedlaethol mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol

15. Roedd y Papur Gwyn hefyd yn amlinellu ein huchelgais i gael amgylchedd diogel a saff i staff a charcharorion, â threfn ddyddiol sy'n gweithio er mwyn lleihau aildroseddu. Roedd llawer o'r rhai a gyfrannodd tuag at yr ymgynghoriad yn cefnogi ein mesurau i wneud carchardai yn fwy saff a diogel, megis sganwyr cyrff a chamerâu sy'n cael eu gwisgo, ac yn rhannu ein pryderon ynglŷn â chyffuriau a throseddu mewn carchardai. I rai, un o'r prif faterion oedd ceisio cael mwy o erlyniadau am ymosodiadau ar staff carchar. Clywsom hefyd fod angen cael y cydbwysedd yn iawn rhwng mesurau diogelwch a chyfleoedd adsefydlu.

16. Mae'n hanfodol ein bod yn adeiladu ar waith da'r Rhaglen Buddsoddi mewn Diogelwch ac yn parhau i fynd i'r afael â chludo cyffuriau i garchardai. Rydym wedi sicrhau £25 miliwn arall yn ddiweddar er mwyn gwella diogelwch carchardai gan gynnwys atal cyffuriau rhag dod i mewn i garchardai drwy osod systemau o safon uchel i ganfod olion cyffuriau, technoleg blocio ffonau symudol a System Rheoli Gwybodaeth. Mae cynlluniau ar y gweill hefyd i gyflwyno Tasglu Troseddau mewn Carchardai erbyn dechrau 2023. Ar sail adborth, bydd hyn yn cynnwys gwella'r prosesau casglu tystiolaeth a gallu staff fel bod achosion sy'n cael eu cyfeirio at sylw Gwasanaeth Erlyn y Goron am droseddau yn erbyn staff o safon uwch.

17. Mae'r ddyled sy'n deillio o gyflenwi a dosbarthu a defnyddio cyffuriau yn un o'r prif ffactorau sy'n achosi trais, brawychu a hunan-niwed ar draws yr ystad, gan roi staff a charcharorion eraill mewn perygl. Erbyn mis Hydref 2022, byddwn wedi cwblhau archwiliad o ddyledion carcharorion gan ddwyn ynghyd yr holl ddata hysbys a thystiolaeth ynglŷn â sut y mae dyled yn gweithio mewn carchar a sut y mae'n treiddio i mewn i'r gymuned gan greu rhagor o ddioddefwyr troseddu.

18. Yn ogystal â hyn, byddwn yn cyflawni'r ymrwymiadau sydd yn Strategaeth Gyffuriau'r Llywodraeth, gan gynnwys buddsoddi £120 miliwn i gael mwy o droseddwyr i ymrwymo i driniaeth, â phwyslais ar sicrhau ymataliaeth. Bydd hyn yn gwella cyfundrefnau profi mewn carchardai, yn cynyddu'r defnydd o ofynion adsefydlu cyffuriau dwys ar gyfer y rhai sydd ar ddedfrydau cymunedol ac yn cefnogi carcharorion i ymrwymo i driniaeth gymunedol cyn cael eu rhyddhau. Rydym hefyd yn ehangu'r defnydd o ardaloedd Byw Heb Sylweddau â Chymhellion lle mae carcharorion yn ymrwymo i fyw heb gyffuriau, gan gymryd rhan mewn profion cyffuriau gwirfoddol a chael triniaeth.

19. Roedd Papur Gwyn y Strategaeth Garchardai yn nodi wyth ymrwymiad penodol y gellid eu cyflawni er mwyn gwella diogelwch mewn carchardai. Erbyn hyn mae pob un o'r rhain wedi cael ei ariannu'n llawn drwy'r Adolygiad o Wariant a gyhoeddwyd yn ddiweddar, ac o ganlyniad byddant yn cael eu cyflawni yn ystod y tair blynedd nesaf. Y mater a godwyd amlaf mewn cysylltiad â diogelwch yn yr ymgynghoriad oedd sicrhau bod sylw'n cael ei roi i anghenion amrywiol unigolion sydd yn y ddalfa, gan gynnwys iechyd meddwl, trawma a nodweddion gwarchodedig. Bydd yr adborth gan ymatebwyr yn fuddiol iawn fel sail i'n dull gweithredu gyda gwasanaethau cefnogi cymheiriaid i

garcharorion a staff, ein Gwasanaeth Cymorth Uwch newydd i fynd i'r afael â'r ymddygiad mwyaf heriol a thasglu arloesiadau i nodi a threialu ymyriadau newydd ar gyfer trais a hunan-niweidio.

20. Roedd y Papur Gwyn yn ymrwymo i raglen ddwy flynedd o Ddylunio Cyfundrefn y Dyfodol, a gofynasom am adborth yn yr ymgynghoriad ynglŷn â'i hegwyddorion a'i dull gweithredu. Clywsom gefnogaeth i ddull gweithredu wedi'i deilwra, annog gweithgaredd mwy ystyrlon a rhyngweithiadau rhwng staff a charcharorion a gwneud technoleg yn rhan o gyfundrefn y carchar (ond i ategu rhyngweithiadau rhwng staff a charcharorion yn hytrach na chymryd eu lle). Barn gyffredin oedd bod angen cydweithredu y tu mewn a'r tu allan i system y carchar er mwyn datblygu cyfundrefnau ar gyfer y dyfodol. Yn unol â hyn, rydym yn awr yn gweithio mewn partneriaeth â grwpiau rhanddeiliaid allweddol, staff a phobl sydd â phrofiad o'r system garchardai er mwyn cyd-ddylunio a darparu'r Model Cyfundrefn Genedlaethol newydd.

21. Roedd y Papur Gwyn hefyd yn nodi ein huchelgais i wella'r system ddyfarniadau a chyflwyno system llwybr carlam ag ymyriadau adsefydlu ar gyfer troseddau ar lefel is. Mynegodd rhai rhanddeiliaid bryder ynglŷn ag ymarferoldeb hyn, ac effeithiau anghymesur posibl ar grwpiau sy'n cael eu gwarchod, gan nodi bod angen gweinyddu dyfarniadau ochr yn ochr â systemau gwobrwyo i annog carcharorion i gydymffurfio.

22. Er mwyn helpu i liniaru'r pryderon hyn, rydym yn awr yn bwriadu cynllunio'r broses ddyfarniadau llwybr carlam yn unol â systemau rheoli ymddygiad eraill er mwyn sicrhau ymatebion cymesur i wahanol fathau o dorri rheolau a gwahanol ddifrifoldeb. Byddwn hefyd yn adolygu'r broses bapur bresennol ar gyfer dyfarniadau er mwyn asesu a ellir gwneud gwelliannau digidol i alluogi cosbau i fod yn gyflym, lleihau camgymeriadau yn y system a gwneud y broses yn fwy hygyrch. Gwneir asesiad llawn o'r effaith ar gydraddoldeb, a byddwn yn cymryd y camau priodol i sicrhau nad yw'r newidiadau'n cael effaith negyddol anghymesur ar garcharorion sydd â nodweddion gwarchodedig.

Lleihau Aildroseddu

Ers cyhoeddi'r Papur Gwyn, rydym wedi:

- Cyflymu'r broses o gyflwyno Hybiau Cyflogaeth, â 36 i fod i gael eu sefydlu erbyn diwedd mis Mehefin
- Dechrau recriwtio 91 o gynghorwyr cyflogaeth i fod ym mhob un o'n carchardai adsefydlu erbyn mis Ebrill 2023
- Lleihau'r cyfnod o amser ar gyfer datgelu cofnodion troseddol yn achos rhai troseddau
- Dechrau'r broses gaffael er mwyn ehangu llety dros dro i gefnogi rhai sy'n gadael carchar y mae perygl iddynt ganfod eu hunain yn ddigartref yng Nghymru a Lloegr

Yn y dyfodol, byddwn yn:

- Deddfu er mwyn galluogi prentisiaethau carcharorion mewn cydweithrediad â'r Adran Addysg
- Ymrwymo i weithredu yng nghyswllt rhyddhau ar ddydd Gwener, gan gynnwys ceisio sicrhau deddfwriaeth i fynd i'r afael â'r broblem hon i'r rhai y mae risg y byddant yn aildroseddu, pan fydd amser seneddol yn caniatáu
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid ynglŷn â dylunio a gweithredu Pasbortau Ailsefydlu

23. Wrth graidd y Papur Gwyn roedd ein nod o fynd i'r afael â'r cylch aildroseddu yn ein carchardai a lleihau troseddu. Amlinellwyd cynlluniau i gyflwyno System Addysg Carchardai er mwyn gwella rhifedd a llythrennedd, adeiladu cysylltiadau cryfach â chyflogwyr er mwyn sicrhau bod cymaint ag sy'n bosibl o swyddi ar gael i garcharorion pan fyddant yn cael eu rhyddhau a dod â gwybodaeth a gwasanaethau hanfodol at ei gilydd ar ffurf Pasbort Ailsefydlu fel bod y rhai sy'n gadael carchar yn gallu byw bywydau heb droseddu. Roedd y Papur Gwyn hefyd yn nodi disgwyliadau cryf yn ymwneud â chyflogaeth: rhagdybiaeth y bydd pob troseddwr yn cael cynnig cyfle i weithio mewn carchar, pan fydd yn cael ei Ryddhau ar Drwydded Dros Dro, a phan fydd yn cael ei ryddhau, er mwyn cynyddu ei siawns o gael gwaith.

24. Dangosodd yr ymgynghoriad gefnogaeth eang i gyfleoedd gwaith mwy ystyrlon mewn carchardai a pharatoi'r rhai sy'n gadael carchar i gael gwaith. Pwysleisiodd yr ymatebwyr bwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth â chyflogwyr lleol er mwyn nodi a llenwi bylchau mewn sgiliau. Fel y nodwyd uchod, rydym wedi cyflwyno rhagdybiaeth y bydd carcharorion yn cael cynnig gwaith yn y ddalfa, ac rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth gynyddu'r gefnogaeth a'r cyfleoedd ar gyfer swyddi ar ôl rhyddhau. Yn unol â'r adborth, rydym wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â chyflogwyr, gan gynnwys James Timpson (Prif Swyddog Gweithredol Timpson) er mwyn sefydlu Byrddau Cyflogaeth mewn carchardai. Bydd y byrddau hyn yn cysylltu carchardai â diwydiant fel bod busnesau lleol yn gallu darparu cyngor ynglŷn â sut y gall hyfforddiant carcharorion gyfateb i anghenion y farchnad lafur leol.

25. Clywsom sawl barn yn yr ymgynghoriad fod datgelu cofnodion troseddol yn rhwystr fawr i lawer sy'n chwilio am waith. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, rydym wedi lleihau'r cyfnod y bydd angen i rai pobl ddatgelu eu cofnod troseddol a byddwn yn awr yn gweithio er mwyn sicrhau bod carcharorion yn cael cefnogaeth ymarferol, gwybodaeth o safon uchel ac arweiniad ynglŷn â datgelu.

26. Thema gyffredin a glywsom yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad oedd yr angen i wella ansawdd addysg a ddarperir mewn carchardai. Roedd y rhanddeiliaid yn cytuno â fframio darpariaeth addysg o amgylch sgiliau craidd sydd eu hangen ar gyfer gweithleoedd modern, a hefyd y dylai gael ei theilwra er mwyn diwallu anghenion

amrywiol poblogaeth carchardai. Dywedodd rhai o'r ymatebwyr hefyd y dylid galluogi carcharorion i wneud prentisiaethau a dechrau'r rhain yn y carchar.

27. Rydym yn cytuno bod angen newid y ffordd rydym yn darparu addysg mewn carchardai. Mae hyn yn dechrau drwy sicrhau bod carcharorion yn cael asesiad addysgol yn fuan a'u bod yn cael eu sgrinio er mwyn canfod unrhyw anghenion cymorth dysgu ychwanegol. Ers cyhoeddi'r Papur Gwyn, rydym wedi cyhoeddi canllawiau cychwynnol i lywodraethwyr i'w helpu i nodi'r cwricwlwm gorau ar gyfer poblogaeth eu carchar. Yn unol ag adborth o'r ymgynghoriad, cyhoeddasom yn ddiweddar ein bwriad i weithio gyda'r Adran Addysg er mwyn newid y gyfraith i alluogi prentisiaethau carcharorion i ddechrau yn ddiweddarach eleni. Cyn bo hir hefyd byddwn yn amlinellu rhagor o gynlluniau ar gyfer cronfeydd arloesi llythrennedd a chyflogadwyedd er mwyn sicrhau bod gan garcharorion y sgiliau sydd eu hangen i gael gwaith ar ôl cael eu rhyddhau. Er mwyn adlewyrchu anghenion amrywiol poblogaeth y carchardai, yn ystod y flwyddyn ariannol hon rydym wedi bod yn recriwtio arbenigwyr i gefnogi carcharorion ag anghenion dysgu ychwanegol yn ogystal ag 17 arbenigwr addysg.

28. Roedd llawer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cyfeirio at bwysigrwydd cefnogi'r rhai a oedd yn gadael y carchar i adsefydlu yn y gymuned, a sicrhau bod y trefniadau angenrheidiol wedi'u gwneud cyn i'r unigolyn gael ei ryddhau. Mae hyn yn cynnwys eu cefnogi i gyflogaeth (uchod), darparu llety a sicrhau triniaeth gofal iechyd ddi-dor. Rydym wedi cyflwyno darpariaeth newydd o lety dros dro a chefnogaeth am hyd at 12 wythnos ar ôl rhyddhau i rai sy'n gadael y carchar ac sydd mewn perygl o fod yn ddigartref. Byddwn hefyd yn sicrhau bod y rhai sy'n gadael y carchar yn gadael â'r pethau sylfaenol, megis cerdyn adnabod a chyfrif banc, drwy raglen o weithgareddau mewn carchardai yn ystod y flwyddyn nesaf.

29. Rydym yn gweld Pasbortau Ailsefydlu fel cyfle gwerthfawr i ddod â'r wybodaeth a'r gwasanaethau allweddol at ei gilydd i gefnogi carcharorion pan fyddant yn cael eu rhyddhau. Croesawyd y cysyniad o Basbortau Ailsefydlu gan randdeiliaid yn yr ymgynghoriad. Teimlent na fyddent yn effeithiol oni bai eu bod yn ddigidol, yn cysylltu â chynllunio dedfrydau ac yn ddigon hyblyg i ddiwallu anghenion unigolion. Byddwn yn dal i ddatblygu'r gwaith o ddylunio Pasbortau Ailsefydlu ac mae hyn yn cynnwys profi â staff rheng flaen, sefydliadau'r sector gwirfoddol a charcharorion.

30. O ran rhyddhau ar ddydd Gwener, yn gyffredinol teimlai'r ymatebwyr y dylid cael mwy o hyblygrwydd a disgresiwn, ei bod yn bosibl y bydd angen deddfwriaeth i gefnogi hyn ac awgrymodd rhai y dylem edrych ar y dull a ddefnyddir yn yr Alban. Bydd y Llywodraeth hon yn deddfu er mwyn galluogi pobl sy'n gadael y carchar, ac y mae perygl iddynt aildroseddu, i gael eu rhyddhau hyd at ddau ddiwrnod yn gynharach, os bydd dyddiad rhyddhau yn digwydd bod ar ddydd Gwener neu cyn gŵyl y banc, pan fydd amser

Seneddol yn caniatáu. Byddwn yn ystyried amgylchiadau personol y troseddwr er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn dal i gael eu hamddiffyn.

31. Er nad oedd cwestiynau penodol yn y Papur Gwyn ynglŷn â'n dyheadau ar gyfer mynd i'r afael â digartrefedd carcharorion ar ôl cael eu rhyddhau, dywedodd nifer o'r ymatebwyr fod hon yn broblem sylfaenol. Rydym yn croesawu'r sylwadau hynny, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â'r heriau unigryw y mae troseddwyr benywaidd yn eu hwynebu, a byddwn yn eu defnyddio fel sail i ddarparu Safleoedd Cymeradwy, Gwasanaethau Cymorth Llety Mechnïaeth, Gwasanaeth Llety Cymunedol - Haen 3 ac Arbenigwyr Tai.

Carchardai Menywod

Ers cyhoeddi'r Papur Gwyn, rydym wedi:

- Datblygu meini prawf dewis ac asesu pwrpasol ar gyfer staff mewn carchardai menywod a dechrau cyflwyno model hyfforddiant staff pwrpasol
- Recriwtio Swyddogion Cyswllt Beichiogrwydd, Mamau a Babanod ar draws yr ystad menywod
- Ariannu nifer o weithgareddau i gefnogi gwelliannau mewn diogelwch, gan gynnwys mwy o gefnogaeth i fenywod ag anghenion cymhleth, cefnogaeth arbenigol i fenywod sydd wedi cael eu cam-drin a chefnogaeth ychwanegol yn ystod y diwrnodau cynnar yn y ddalfa
- Cyhoeddi agor Canolfan Breswyl beilot i Fenywod yn Abertawe i ddarparu dewis arall yn y gymuned yn lle dedfryd fer o garchar

Yn y dyfodol, byddwn yn:

- Cyhoeddi cynllun cyflawni ar gyfer y Strategaeth Troseddwyr Benywaidd a fydd yn amlinellu ffyrdd o leihau nifer y menywod yn y ddalfa
- Parhau i wella cefnogaeth i fenywod beichiog a mamau ifanc, gan gynnwys sefydlu Fforwm Cynghori Cenedlaethol Rhanddeiliaid

32. Roedd y Papur Gwyn yn amlinellu dull gweithredu newydd ar gyfer carchardai menywod: un sy'n ymateb i drawma, yn cydnabod bod profiad menywod yn y ddalfa yn wahanol ac yn darparu lefelau priodol o gefnogaeth, yn enwedig i fenywod beichiog a rhai sydd â phlant ifanc.

33. Roedd cefnogaeth eang yn yr ymgynghoriad i ddull gweithredu pwrpasol, sy'n seiliedig ar drawma, lle mae menywod yn y ddalfa. Cyfeiriodd y rhanddeiliaid hefyd at bwysigrwydd cydnabod a diwallu anghenion amrywiol y boblogaeth fenywaidd, gan gynnwys mewn cysylltiad â thrais domestig, camfanteisio'n rhywiol a threftadaeth ddiwylliannol.

34. Fel y nodwyd uchod, rydym yn gwneud cynnydd drwy sicrhau bod pob carchar i fenywod yn dod yn amgylchedd ymatebol ac ystyriol o drawma. Yn ogystal â gwella trefniadau recriwtio a hyfforddi ar gyfer carchardai menywod, bydd rhagor o gyllid ar gyfer diogelwch yn cynnwys cefnogaeth ychwanegol i fenywod yn y dyddiau cynnar yn y ddalfa, y rhai sydd ag anghenion cymhleth a datblygu dull gweithredu pwrpasol ar gyfer menywod ifanc. Rydym hefyd yn dechrau gwaith i ddylunio amgylcheddau dalfa llai i fenywod sydd ar ddedfrydau byr ac mae ymchwil yn mynd rhagddo i archwilio profiadau y mae menywod sydd â hanes o drawma yn eu cael yn y carchar.

35. O ran ein cynlluniau i ddarparu cyfleusterau newydd yn yr ystad menywod, roedd rhai o'r ymatebwyr yn credu y dylid lleihau'r boblogaeth carchardai menywod, gan ddefnyddio dewisiadau cymunedol amgen i fenywod a gafwyd yn euog o droseddau di-drais a'r rhai sydd â dedfrydau byr. Rydym yn dal i gredu y dylai'r ddalfa fod yn ddewis olaf i'r rhan fwyaf o fenywod ond mae rhai troseddau lle mae angen dedfryd o garchar, ac mae arnom angen y lle i allu darparu ar gyfer y menywod hyn. Mater i'r farnwriaeth yw dedfrydu ac mae beichiogrwydd eisoes yn ffactor lliniaru mewn canllawiau dedfrydu. Er hyn, rydym yn edrych ar ffyrdd o leihau nifer y menywod mewn carchardai a bydd ein hymrwymiadau i gefnogi'r nod hon yn cael eu hamlinellu mewn Cynllun Cyflawni yn y dyfodol ar gyfer y Strategaeth Troseddwyr Benywaidd. Bydd hyn yn cynnwys datblygu cynllun peilot Llysoedd Datrys Problemau i gynnig Gorchymyn Cymunedol dwys neu Orchymyn Dedfryd Ohiriedig fel dewis arall yn lle carchar. Rydym wedi cyhoeddi bod y Ganolfan Breswyl gyntaf i Fenywod yn agor yn Abertawe, gan gynnig dewis cymunedol yn lle dedfryd o garchar am gyfnod byr a fydd yn galluogi menywod i ymgysylltu â gwasanaethau adsefydlu a rhoi sylw i'r ffactorau sylfaenol sy'n achosi eu hymddygiadau troseddol.

36. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu cefnogaeth briodol i fenywod beichiog neu'r rhai sydd â phlant ifanc iawn. Roedd llawer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cytuno bod angen mwy o gefnogaeth ar gyfer beichiogrwydd, mamau plant ifanc a chefnogi cysylltiadau teuluol. Roedd cefnogaeth i ehangu'r defnydd o Unedau Mamau a Babanod, ond â'r amod uchod bod llawer yn credu na ddylai menywod beichiog fod yn y ddalfa. Roedd y Papur Gwyn yn nodi diwygiadau allweddol yn ein fframwaith polisi cenedlaethol newydd, gan gynnwys darparu Swyddogion Cyswllt Beichiogrwydd, Mamau a Babanod ar draws yr ystad menywod, sydd wedi cael eu recriwtio. Disgwylir yn awr i garchardai gydymffurfio'n llawn â'r fframwaith hwn. Eleni byddwn hefyd yn cynnal cyfarfod cyntaf o'r Fforwm Cynghori Cenedlaethol Rhanddeiliaid, fforwm a gynhelir ddwywaith y flwyddyn i gynghori ar Unedau Beichiogrwydd, Mamau a Babanod a Gwahanu Plant hyd at Ddwy Oed oddi wrth eu Mamau mewn Carchardai Menywod. Bydd hyn yn sicrhau bod menywod sydd â phrofiad o'r gyfundrefn garchardai, rhanddeiliaid a'n hasiantaethau partner yn gallu dweud wrthym beth yw'r ffordd orau o gefnogi menywod beichiog a mamau sydd â phlant ifanc.

Gweithlu

Ers cyhoeddi'r Papur Gwyn, rydym wedi:

- Lansio ein pecyn cymorth cadw staff ym mhob carchar er mwyn hybu ein dealltwriaeth o'r rhesymau dros adael
- Datblygu llwybrau gyrfaol newydd, megis y cynllun Arweinwyr Cyfiawnder llwybr carlam, i gefnogi ein cynlluniau i recriwtio mwy o swyddogion carchar

Yn y dyfodol, byddwn yn:

- Cwblhau'r gwaith o recriwtio 5,000 yn rhagor o swyddogion carchar erbyn canol y 2020au
- Buddsoddi mewn nifer o gynlluniau cadw staff gan gynnwys: cynlluniau bydis ym mhob carchar ar gyfer dysgu cymar-i-gymar; mentoriaid staff profiadol ym mhob carchar i gefnogi staff newydd; mwy o hyfforddiant arweinyddiaeth yn y safleoedd sydd â'r cyfraddau gadael uchaf

37. Mae ein pobl yn rhan allweddol o'r Papur Gwyn ac rydym yn dibynnu ar ein gweithlu ymroddedig er mwyn cyflawni ein huchelgeisiau cyffredinol. Er bod cwestiynau ein hymgynghoriad yn canolbwyntio ar hyfforddiant, roedd llawer o randdeiliaid yn nodi'n glir y byddai recriwtio a chadw staff yn hollbwysig er mwyn cyflawni ein nodau ehangach.

38. O ran hyfforddiant staff, roedd y farn ynglŷn â ble y gallem fynd ymhellach yn amrywio, o hyfforddiant trawma i sgiliau digidol, ymwybyddiaeth emosiynol a sgiliau cyfathrebu. Roedd nifer o'r ymatebion yn cyfeirio at yr angen i sicrhau na fyddai unrhyw hyfforddiant ychwanegol yn faich ar swyddogion ac roeddent yn gofyn a fyddai digon o adnoddau ar gael er mwyn rhyddhau staff gweithredol i fynd ar gyrsiau hyfforddi. Clywsom gefnogaeth hefyd ar gyfer goruchwyliaeth broffesiynol i swyddogion a mwy o fynediad at hyfforddiant arweinyddiaeth i'r staff.

39. Rydym yn cydnabod yr heriau staffio a wynebir mewn carchardai lle mae ar nifer fawr o staff angen amser i ffwrdd o landin y carchar am resymau amrywiol, gan gynnwys cwblhau hyfforddiant hanfodol. Rydym wedi cynyddu buddsoddiad er mwyn i ni allu ôl-lenwi'r bylchau hyn ar draws yr ystad lle mae heriau o'r fath yn codi. Yn unol ag adborth yr ymgynghoriad, rydym hefyd yn lansio peilot goruchwylio ym mis Mai 2022 ar gyfer swyddogion carchar Band 3 mewn dau sefydliad.

40. Roedd nifer o'r ymatebwyr yn rhoi pwyslais ar recriwtio a chadw staff. Yn y Papur Gwyn, roeddem yn nodi ein bwriad i gynnal ymgyrch recriwtio fawr ar gyfer hyd at 5,000 o swyddogion carchar ychwanegol mewn carchardai preifat a chyhoeddus erbyn canol y 2020au. Ar hyn o bryd mae gennym weithgaredd recriwtio yn mynd rhagddo ar gyfer pob safle sydd angen recriwtio staff nawr neu yn y dyfodol.

41. Fel y nodwyd uchod, rydym wedi cyflwyno pecyn cymorth cadw staff ym mhob carchar a chyn bo hir byddwn yn amlinellu cynlluniau i lansio mentrau newydd i wella cyfraddau cadw staff. Rydym hefyd wedi datblygu llwybrau gyrfa newydd a lansiwyd ym mis Ionawr – 'Ymlaen i Gyfiawnder', cynllun llwybr carlam y Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n cynorthwyo cyn aelodau o'r lluoedd arfog i fod yn swyddogion carchar; ac ym mis Ionawr 2022, gwahoddasom geisiadau ar gyfer y cynllun llwybr carlam cyntaf ar gyfer holl adrannau HMPPS, 'Arweinwyr Cyfiawnder'. Credwn y bydd cymryd y camau hyn yn ein helpu i gadw ein staff gwerthfawr mewn gwahanol sefydliadau.

42. Rydym yn cydnabod bod recriwtio a chadw staff yn cael ei ysgogi gan nifer o wahanol ffactorau, gan gynnwys tâl, pwnc a godwyd yn nifer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Byddwn yn parhau i weithio gyda Chorff Adolygu Cyflogau'r Gwasanaeth Carchardai fel rhan o'r rownd gyflogau reolaidd. Mae ein cynigion ar gyfer dyfarniad cyflog 2022/23 yn ceisio sicrhau cynnydd wedi'i dargedu mewn cyflogau i staff carchar gweithredol, ac i'r rhai ar y cyflogau isaf.

Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd

Ers cyhoeddi'r Papur Gwyn, rydym wedi:

- Cytuno ar 14 o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) i fesur cynnydd sgoriau perfformiad a gyhoeddir yn flynyddol ar gyfer pob carchar
- Datblygu cynlluniau ar gyfer Cyfarfodydd Adolygu Perfformiad Gweinidogol a chyfarfodydd bord gron i wella atebolrwydd

Yn y dyfodol, byddwn yn:

- Parhau i chwilio am gyfleoedd deddfwriaethol i gryfhau'r cyrff craffu
- Egluro pwerau presennol llywodraethwyr er mwyn gweld sut y gallwn ganiatáu mwy o annibyniaeth

43. Mae'r Papur Gwyn yn amlinellu ein huchelgais ar gyfer 'Bargen Newydd' i Lywodraethwyr yn seiliedig ar ddisgwyliadau clir ac atebolrwydd, ond â mwy o ryddid ac annibyniaeth i ddylanwadu ar y ffordd y mae'n hamcanion strategol yn cael eu cyflawni yn ymarferol yn ein carchardai. Mae'r ymgynghoriad wedi pwysleisio ein hymrwymiad i roi annibyniaeth i Lywodraethwyr yn y ffordd iawn. Clywsom nifer o ymatebion yn rhybuddio na ddylai mwy o annibyniaeth ddod ar draul anghysonderau ar draws yr ystad, a allai fod yn ddryslyd ac yn gythryblus i garcharorion a staff. Awgrymodd rhai ymatebwyr hefyd fod yn rhaid cael fframwaith clir er mwyn sicrhau nad yw llywodraethwyr yn ofni arloesi a bod pawb yn deall y paramedrau'n iawn.

44. Er mwyn osgoi hyn, ac er mwyn cyflawni'r targedau a osodwyd yn y Papur Gwyn, byddwn yn cyhoeddi datganiad polisi yn egluro pwerau presennol llywodraethwyr ym

mis Mehefin 2022. Wrth i ni barhau i ddatblygu'r polisi o amgylch annibyniaeth a enillir, rydym yn sicrhau bod hyn yn parhau i gael ei arwain gan farn o'r llinell weithredol. Yn ogystal ag ymgysylltu'n rheolaidd ag arweinwyr gweithredol, ym mis Mawrth 2022 fe wnaethom hefyd benodi Hyrwyddwr Llywodraethwyr. Cyhoeddir rhagor o ganllawiau yn ddiweddarach eleni ynglŷn â'r paramedrau posibl ar gyfer pwerau annibyniaeth a enillir a'r broses ar gyfer eu cymhwyso.

45. Rydym hefyd wedi ymrwymo yn y Papur Gwyn i wella atebolrwydd: sefydlu Bwrdd adolygu perfformiad newydd yn cael ei arwain gan Weinidogion, defnyddio DPA a'n blaenoriaethau strategol i sicrhau gwell canlyniadau, rhannu arferion da a mynd i'r afael â materion perfformiad strwythurol. I'r perwyl hwn, rydym yn cyflwyno Cyfarfodydd Adolygu Perfformiad Gweinidogol a gynhelir bob chwarter rhwng Gweinidogion a Llywodraethwyr Carchardai. Cynhelir y cyntaf o'r rhain ym mis Gorffennaf 2022. Rydym hefyd yn cyflwyno 14 DPA ym mis Ebrill 2022 yn ymwneud â diogelwch a sefydlogrwydd; hyfforddiant, sgiliau a gwaith; caethiwed i gyffuriau ac alcohol; a theulu a llety. Byddwn yn cyhoeddi dangosfyrddau a sgoriau perfformiad blynyddol ar gyfer carchardai. Dywedodd y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad y dylai DPA ystyried nodweddion gwarchodedig, a byddwn yn parhau â'n hasesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn unol â hyn.

46. O ran cryfhau craffu annibynnol, dywedasom yn y Papur Gwyn y byddem yn parhau i geisio diwygio deddfwriaeth er mwyn sicrhau bod gan Gyrff Hyd Braich y fframwaith deddfwriaethol sydd ei angen i ymgymryd â gweithgaredd craffu mor effeithiol ag sy'n bosibl. Rydym wedi ymrwymo i gyflawni'r ddeddfwriaeth hon a byddwn yn parhau i weithio gyda'r Cyrff Hyd Braich er mwyn sicrhau bod eu heffaith gref yn parhau.

E02752093

978-1-5286-3371-0